# CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## DYDDIAD 28 GORFFENNAF 2021

## PWNC

**DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya**

**RHESYMAU:**

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Caerfyrddin** | **E-bost:** CMoore@sirgar.gov.uk |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

# DYDDIAD 28 GORFFENNAF 2021

## DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2021/22 ar 24 Mawrth 2021. Atodir diweddariad i Chwarter 1 sy'n dangos cynnydd PPC o ran adrannau'r Cynllun Gwaith, y Gyllideb a'r Buddsoddiadau.

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cwblhau cau cyfrifon diwedd blwyddyn 2020/21
- Llunio Diweddariad Blynyddol 2020/21
- Gweithio â Robeco, darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i gwblhau gofynion adrodd
- Adolygiad Gweithredwr – mae cyfarfodydd chwarterol yn parhau i gael eu cynnal gyda'r Awdurdod Lletya, Link a Hymans Robertson
- Caffael Ymgynghorydd Dyranwyr
- Y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau – Atodiad y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau a ddrafftiwyd gan Burges Salmon i gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun (heb bleidlais) ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a phenodi dyrannwr ar gyfer yr is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat
- Is-grwpiau'r Gweithgor Swyddogion:
    - Is-grŵp Marchnadoedd Preifat
    - Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol
    - Is-grŵp Cofrestr Risg

Camau nesaf / Blaenoriaethau:

- Ffurfio Adroddiad Blynyddol 2020/21
- Dod yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y Deyrnas Unedig
- Atodiad y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau – ceisio cymeradwyaeth ffurfiol gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansodddol
- Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun – dechrau'r broses benodi

- Lansio'r Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol – 20 Hydref 2021
- Datblygu Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat:
    - Medi 2021 - Chwefror 2023 - Caffael Dyranwyr Dyled Breifat, Ecwiti Preifat a Seilwaith (x2)
    - 23 Mawrth 2022 – Cyd-bwyllgor Llywodraethu i gymeradwyo penodiadau Dyranwyr
    - Mawrth 2022 - Rhagfyr 2022 – datblygu, cymeradwyo a lansio'r is-gronfeydd Dyled Breifat, Ecwiti Preifat a Seilwaith
- Adolygiad Gweithredwr:
    - Cyflwyno adroddiad cynnydd i gyfarfod y Gweithgor Swyddogion ym mis Medi 2021
    - Cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2021

Meysydd allweddol eraill:

- Hyfforddiant – sesiynau hyfforddiant yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir
- Gwefan – mae newyddion a chyhoeddiadau perthnasol yn parhau i gael eu rhoi ar y wefan

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES** | Cyfreithiol **DIM** | Cyllid **DIM** | Materion Rheoli Risg **DIM** | Goblygiadau Staffio **DIM** |
|---|---|---|---|---|

**Polisi**

Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

# YMGYNGORIADAU

| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgyngoriadau a gynhaliwyd yma |
| --- |

| Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD | | |
| --- | --- | --- |
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |